




Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Cymorth gan Rieni gyda Llythrennedd a Rhifedd

27 Hydref 2016
SB 49/2016

Cafodd cyfres o gwestiynau ynghylch cymorth gan rieni gyda llythrennedd a rhifedd ei chynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol er mwyn darparu rhagor o dystiolaeth i gynorthwyo'r broses o ddatblygu polisïau. Gofynnwyd i rieni pa mor aml yr oeddent yn helpu eu plentyn gyda darllen, ysgrifennu a rhifau a pha mor hyderus yr oeddent o ran eu gallu eu hunain i helpu.

Canfyddiadau allweddol

- Roedd 81% o'r rhieni a oedd â phlentyn rhwng 3 a 7 oed yn cynorthwyo eu plentyn sawl gwaith yr wythnos o leiaf gyda darllen ac ysgrifennu.
- Roedd 69% o'r rhieni yn cynorthwyo eu plentyn 3 i 7 oed sawl gwaith yr wythnos o leiaf gyda mathemateg neu rifau.
- Roedd 76% yn hyderus iawn wrth helpu eu plentyn 3 i 11 oed i ysgrifennu yn Saesneg; roedd 79% yn hyderus iawn wrth helpu eu plentyn i ddarllen yn Saesneg.
- Roedd 60% yn hyderus iawn wrth helpu eu plentyn 3 i 11 oed gyda mathemateg neu rifau.
- Roedd 56% o'r rhai sy'n siarad Cymraeg yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu eu hunain i ddarllen y Gymraeg, ac roedd 50% yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu eu hunain i ysgrifennu yn y Gymraeg er mwyn gallu helpu eu plentyn 3 i 11 oed i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.



Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cwmpasu amrywiaeth eang o bynciau sy'n effeithio ar bobl a'u hardal leol. Cafodd prif ganlyniadau arolwg 2014-15, sydd wedi'u seilio ar fwy na 14,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb, eu cyhoeddi gyntaf ym mis Mehefin 2015. Dechreuodd fersiwn ehangedig o'r Arolwg Cenedlaethol yn 2016 a oedd yn cwmpasu pynciau tebyg yn ogystal â detholiad o bynciau o bedwar arolwg arall y mae wedi'u disodli. Bydd canlyniadau cyntaf yr arolwg newydd yn cael eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2017.

Am y bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn darparu dadansoddiad mwy manwl o ganlyniadau'r cwestiynau ynglŷn â **chymorth gan rieni gyda llythrennedd a rhifedd** a gafodd eu cynnwys am y tro cyntaf yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15.

Mae'r holiadur llawn ar gael ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

Mae tablau ychwanegol ar gael drwy [StatsCymru](#).

Yn y bwletin hwn

Cyflwyniad	2
Cymorth gan rieni	2
Pa mor aml y mae rhieni'n cynorthwyo	3
Hyder rhieni ynglŷn â chynorthwyo	5
Termau a diffiniadau	11
Gwybodaeth allweddol am ansawdd	12

Cyflwyniad

Yn 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru [Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant](#), a oedd yn cyflwyno'i hymrwymiad i roi cyfle i bob plentyn gyflawni ei potensial, ac yn pwysleisio pwysigrwydd sgiliau llythrennedd a rhifedd da. Nodwyd bod tair elfen bwysig yn gwella deilliannau plentyn a'i gyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd:

- amgylchedd dysgu da yn y cartref yn ystod y blynyddoedd cynnar;
- lleoliadau cyn ysgol o ansawdd da; ac
- ysgol gynradd effeithiol.

Mae rhieni sy'n siarad â'u plant, sy'n gwerthfawrogi dysgu ac sy'n annog eu plant i ddarllen yn gallu gwella sgiliau iaith a llythrennedd eu plentyn yn sylweddol, a'u cynorthwyo i fod yn barod ar gyfer yr ysgol.

Cafodd cwestiynau'r Arolwg Cenedlaethol ynglŷn â chymorth gan rieni eu cyflwyno er mwyn canfod pa mor gyffredin yw gwneud hyn ac i ddarparu tystiolaeth ar gyfer y [Cyfnod Sylfaen](#), sef menter dysgu a datblygu a dargedir at blant 3 i 7 oed. Ar ben hynny, gofynnwyd i rieni a oedd â phlentyn yn yr ysgol gynradd (3 i 11 oed) am eu hyder eu hunain wrth helpu eu plentyn i ddysgu. Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiynau hyn yn yr arolwg.

Mae'r [holiadur](#) llawn, gan gynnwys y cwestiynau am gymorth gan rieni, yn ogystal â chwestiynau am amrywiaeth o bynciau eraill yr Arolwg Cenedlaethol, ar gael ar dudalennau gwe [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#). Gellir gweld tablau ychwanegol drwy [StatsCymru](#). Mae rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, ynghyd â diffiniadau o'r termau a ddefnyddir yn y bwletin, ar gael yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#) ar ddiwedd y bwletin hwn.

Cymorth gan rieni


Roedd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 yn cynnwys cwestiynau a oedd yn ymdrin yn benodol â chymorth gan rieni gyda llythrennedd a rhifedd. Gofynnwyd i rieni a oedd â phlentyn 3 i 7 oed (a oedd yn byw yn y cartref) pa mor aml yr oeddent yn helpu eu plentyn i ddysgu am lythrennau neu i ddarllen neu ysgrifennu, a chyda mathemateg neu rifau. Gofynnwyd hefyd i rieni a oedd â phlentyn 3 i 11 oed pa mor hyderus yr oeddent yn teimlo ynglŷn â'u gallu eu hunain i helpu eu plentyn gyda darllen, ysgrifennu a mathemateg.

Yn achos y ddwy gyfres o gwestiynau, os oedd mwy nag un plentyn yn y cartref yn y grŵp oedran hwn, dewiswyd un plentyn ar hap a gofynnwyd i'r ymatebydd feddwl am y plentyn hwn wrth ateb. Mae'n bwysig nodi mai dim ond y rhiant a ddewiswyd ar hap i'w gyfweld y gofynnodd yr arolwg iddo faint o amser yr oedd yn ei dreulio yn gwneud gweithgareddau amrywiol gyda'i blentyn. Ni chasglwyd gwybodaeth am yr amser yr oedd y rhiant arall neu oedolyn arall yn ei dreulio'n gwneud yr un gweithgareddau gyda'r plentyn.

Pa mor aml y mae rhieni'n cynorthwyo

Roedd rhieni'n tueddu i helpu eu plentyn 3 i 7 oed i ddysgu am lythrennau neu i ddarllen ac ysgrifennu yn amlach nag yr oeddent yn helpu eu plentyn gyda mathemateg neu rifau. Dangosir hyn yn Siart 1, lle y gwelir bod 81% o'r rhieni'n helpu gyda darllen ac ysgrifennu sawl gwaith yr wythnos o leiaf; o gymharu â'r ffaith bod 69% o'r rhieni'n helpu eu plentyn gyda mathemateg neu rifau sawl gwaith yr wythnos o leiaf.


Siart 1: Pa mor aml y mae rhiant yn cynorthwyo'i blentyn 3 i 7 oed i ddysgu



Roedd yr amser yr oedd rhieni'n ei dreulio'n helpu eu plentyn yn amrywio yn ôl oedran y plentyn. Fel y dengys Siart 2, plant 3 a 4 oed a oedd yn cael y cyfanswm mwyaf o gymorth dyddiol, wrth i tua hanner y rhieni ddarparu cymorth gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu, a chyda mathemateg neu rifau.


Mae Siart 2 hefyd yn dangos bod y cymorth dyddiol gyda mathemateg neu rifau yn gostwng wrth i oedran y plentyn gynyddu. Rhwng 4 a 5 oed y gwelwyd y gostyngiad amlycaf mewn cymorth dyddiol: yn achos plant 4 oed, roedd 46% o'r rhieni'n rhoi cymorth dyddiol gyda mathemateg a rhifau; pan oedd y plentyn yn 5 oed, sef pan fo plant yn cychwyn yn yr ysgol, roedd 31% o'r rhieni'n rhoi cymorth mor reolaidd â hynny. Mae'n bosibl fod y lefelau llawer uwch o gymorth dyddiol gyda llythrennedd a welir i'w priodoli i'r ffaith bod plant yn dod â llyfrau darllen adref o'r ysgol a bod storïau amser gwely yn cael eu darllen iddynt.

Siart 2: Cymorth dyddiol gan rieni yn ôl oedran y plentyn a ddewiswyd




Roedd y ffaith bod plant eraill yn y cartref hefyd yn cael dylanwad o ran faint o amser yr oedd rhieni'n ei dreulio'n helpu eu plentyn. Mae Siart 3 yn dangos mai mewn cartrefi lle yr oedd un plentyn yn unig yr oedd rhieni'n rhoi cymorth dyddiol amlaf, gan fod 57% o'r rhieni'n darparu cymorth dyddiol gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu, ac roedd 47% yn darparu cymorth dyddiol gyda mathemateg neu rifau. Os oedd dau o blant yn y cartref, roedd 47% o'r rhieni'n darparu cymorth dyddiol gyda llythrennau, darllen neu ysgrifennu i'r plentyn y gofynnwyd amdano, ac roedd 34% o'r rhieni'n darparu cymorth dyddiol gyda mathemateg neu rifau.

Siart 3: Cymorth dyddiol gan rieni i'r plentyn a ddewiswyd, yn ôl nifer y plant yn y cartref



Roedd gwahaniaeth o ran faint o gymorth a oedd yn cael ei gynnig gan rieni gwrywaidd a benywaidd. Mae Siart 4 yn dangos bod canran uwch o famau'n cynnig cymorth dyddiol gyda sgiliau llythrennedd a rhifedd o'u cymharu â thadau.


Siart 4: Cymorth dyddiol gan rieni yn ôl rhyw'r rhiant



Hyder rhieni ynglŷn â'u gallu eu hunain i gynorthwyo'r plentyn i ddysgu

Gofynnwyd i rieni plant 3 i 11 oed pa mor hyderus yr oeddent ynglŷn â'u gallu ei hunain i helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg, a chyda mathemateg. Dangosir y canlyniadau yn Siart 5.

Siart 5: Hyder rhieni ynglŷn â'u gallu eu hunain i helpu eu plentyn 3 i 11 oed ^(a)




(a) Gallai rhieni grybwyll yn ddigymell 'nad yw'r plentyn yn gwneud hyn eto'. Dywedodd llai na 1% hynny yn achos darllen ac ysgrifennu yn Saesneg a llai na 2% yn achos Mathemateg, ond bu i 12% a 13% o'r rhieni grybwyll hynny yn achos darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, yn y drefn honno. Mae'r ymatebion digymell hyn wedi'u tynnu o'r siart.

Roedd rhieni fwyaf hyderus ynglŷn â'u gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn Saesneg, gan fod 79% a 76% ohonynt, yn y drefn honno, wedi dweud eu bod yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu i helpu eu plentyn. Roedd rhieni ychydig yn llai hyderus ynglŷn â'u gallu mewn mathemateg, gan fod 60% ohonynt wedi dweud eu bod yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu i helpu eu plentyn.


Roedd rhieni leiaf hyderus ynglŷn â'u gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, gan fod 16% a 13% yn unig wedi datgan eu bod yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu i helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, a nododd dros hanner nad oeddent yn hyderus o gwbl. Gofynnwyd y cwestiwn i'r rhieni a allai siarad Cymraeg a'r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg. Nid oedd yn peri syndod bod rhieni a oedd yn siarad Cymraeg yn fwy hyderus ynglŷn â'u gallu i helpu eu plant i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg na'r rhieni nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg. Dangosir hyn yn Siart 6.

Siart 6: Hyder rhieni ynglŷn â helpu i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, yn ôl iaith



Fodd bynnag, mae siartiau 6 a 7 yn dangos bod hyd yn oed y rhieni a oedd yn siarad Cymraeg yn llai hyderus ynglŷn â'u gallu i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg (56% a 50% a oedd yn hyderus iawn) nag yr oeddent ynglŷn â'u gallu yn y Saesneg (85%) a Mathemateg (66%). Eto i gyd, roedd rhieni a oedd yn siarad Cymraeg yn fwy hyderus ynglŷn â'u gallu yn y Saesneg ac mewn Mathemateg na'r rhieni nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg, fel y dengys Siart 7.

Siart 7: Hyder rhieni ynglŷn â helpu gyda Saesneg a Mathemateg, yn ôl y gallu siarad Cymraeg




Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y gallu i siarad Cymraeg wedi'i gysylltu â ffactorau eraill, fel lefelau cymwysterau uwch. Felly, er mwyn canfod a allai'r ffaith bod rhiant yn siarad Cymraeg ddylanwadu ar ei hyder wrth helpu ei blentyn gyda Saesneg a Mathemateg, cynhaliwyd dadansoddiad mwy manwl¹. Dangosodd y dadansoddiad hwn mai'r ffactor pwysicaf ar gyfer rhagweld hyder rhiant ynglŷn â darllen Saesneg, ysgrifennu yn Saesneg, a Mathemateg oedd ei gymhwyster uchaf. Ar ôl ystyried lefel y cymhwyster, nid oedd dim gwahaniaethau arwyddocaol o ran hyder rhwng rhieni a allai siarad Cymraeg a'r rhai nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod hyder mwy y rhieni a oedd yn siarad Cymraeg a nodwyd yn Siart 7 yn deillio'n bennaf o'r ffaith bod rhieni a oedd yn siarad Cymraeg â chymwysterau uwch, yn hytrach na bod eu gallu i siarad Cymraeg yn dylanwadu ar lefel eu hyder.

Ar sail yr un dechneg ddadansoddi, canfuwyd dau brif ffactor ar gyfer rhagweld hyder rhiant ynglŷn â helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg, sef lefel gymwysterau'r rhiant a lefel ei allu i siarad Cymraeg.

Roedd lefel gymwysterau'r rhiant yn ddangosydd cryf o'i hyder ynglŷn â'i allu i helpu ei blentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg, a chyda Mathemateg. Mae Siart 8 yn dangos y berthynas hon yn achos sgiliau rhifedd.

¹ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran '[Dadansoddiad atchweliad](#)' yn y '[Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#)'

Siart 8: Y rhieni a oedd yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu eu hunain i helpu eu plentyn gyda mathemateg, yn ôl y cymhwyster uchaf²




Roedd 74% o'r rhieni a oedd â chymwysterau a enillwyd mewn addysg uwch yn hyderus iawn ynglŷn â helpu eu plentyn gyda mathemateg, tra bo 34% o'r rhieni nad oeddent â chymwysterau'n hyderus iawn yn hyn o beth. Yn yr un modd, roedd 89% o'r rhieni a oedd â chymwysterau a enillwyd mewn addysg uwch yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu eu hunain i helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn Saesneg. Mewn cyferbyniad â hynny, roedd 52% a 47% o'r rhieni nad oeddent â dim cymwysterau yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu eu hunain i ddarllen ac ysgrifennu yn Saesneg, yn y drefn honno. Ymysg rhieni a allai siarad Cymraeg, roedd 68% a 62% a oedd â chymwysterau ar lefel addysg uwch yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu eu hunain i helpu eu plentyn i ddarllen ac ysgrifennu yn Gymraeg. Mewn cyferbyniad â hynny, roedd 19% a 25% o'r rhieni nad oeddent â dim cymwysterau yn hyderus iawn ynglŷn â'u gallu eu hunain i ddarllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

Defnyddiwyd dadansoddiad pellach³ i geisio canfod a oedd rhyw rhiant yn dylanwadu ar ei hyder. Yn achos darllen Saesneg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu yn Gymraeg, nid oedd dim gwahaniaeth sylweddol o ran hyder rhwng rhieni gwrywaidd a benywaidd. Fodd bynnag, fel y dengys Siart 9, roedd rhieni gwrywaidd yn llawer mwy hyderus ynglŷn â'u gallu i helpu eu plant gyda Mathemateg, ac roedd rhieni benywaidd yn llawer mwy hyderus ynglŷn â'u gallu i helpu eu plant i ysgrifennu yn Saesneg.

² Mae'r grwpiau o gymwysterau a ddefnyddir ar y siart hon wedi'u seilio ar lefelau'r [Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol](#). Defnyddir y teitlau a welir yma at ddibenion dangosol. Mae diffiniad llawn o'r cymwysterau sydd wedi'u cynnwys ym mhob categori ar gael yn y [Termau a Diffiniadau](#)


³ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran '[Dadansoddiad atchweliad](#)' yn y '[Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#)'

Siart 9: Hyder rhieni ynglŷn ag ysgrifennu Saesneg a mathemateg, yn ôl rhyw



Roedd rhieni'n llai hyderus ynglŷn â Chymraeg, Saesneg a Mathemateg pan fo'r cartref mewn amddifadedd materol. Fel y dengys Siart 10, roedd rhieni mewn cartrefi nad oeddent yn amddifadus yn fwy hyderus ynglŷn â'u gallu i helpu eu plentyn o'u cymharu â rhieni mewn cartrefi a oedd yn amddifadus yn faterol.

Siart 10: Hyder rhieni yn ôl amddifadedd materol



(a) Dim ond canlyniadau rhieni a allai siarad Cymraeg sydd wedi'u cynnwys

Roedd y berthynas o ran darllen Cymraeg a Saesneg yn ôl amddifadedd materol yn dilyn patrwm tebyg iawn i'r hyn a welwyd yn achos ysgrifennu yn Gymraeg a Saesneg.

Er bod rhieni mewn cartrefi nad oeddent yn amddifadus yn fwy hyderus ynglŷn â'u gallu i helpu eu plentyn, a hynny ym mhob pwnc, canfu dadansoddiad mwy manwl⁴ mai hyder rhieni ynglŷn â mathemateg yn unig y gellid ei ragweld oherwydd amddifadedd materol. Yn achos y ddwy iaith, canfuwyd bod y ffaith bod rhieni mewn cartrefi a oedd yn amddifadus yn faterol yn llai hyderus i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod y rhieni hynny â chymwysterau is, yn hytrach na bod lefel eu hamddifadedd yn dylanwadu ar lefel eu hyder.

⁴ Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran '[Dadansoddiad atchweliad](#)' yn y '[Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#)'

Termau a diffiniadau

Cartref

Diffinnir cartref yn un person sy'n byw ar ei ben ei hun neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu gofal tŷ – sef rhannu lolfa neu ystafell fyw neu o leiaf un pryd y dydd.

Rhiant

Yn y bwletin hwn, mae 'rhiant' yn cyfeirio at riant neu warcheidwad cyfreithiol plentyn sy'n byw yn yr un cartref.

Amddifadedd materol

Mae amddifadedd materol yn fesuriad sydd wedi'i ddylunio i ganfod canlyniadau tlodi tymor hir i gartrefi, yn hytrach na straen ariannol tymor byr.

Gofynnwyd cwestiynau i ymatebwyr i ganfod a oedd eu cartref yn gallu fforddio cyfres o bethau fel: cadw'r tŷ yn ddigon cynnes, cynilo'n rheolaidd, neu gael gwyliau unwaith y flwyddyn.

Caiff y sgôr amddifadedd materol ei chyfrifo fel bod person sy'n gallu fforddio popeth yn cael sgôr o 0 a pherson sydd eisiau'r eitemau y gofynnir ynglŷn â hwy ond nad ydynt ganddo yn cael sgôr o 100. Rhoddir sgôr uwch i gartrefi nad oes ganddynt yr eitemau hynny sydd gan y rhan fwyaf o gartrefi yn barod. Caiff y rhai sydd â sgôr o 25 neu fwy eu hystyried yn 'amddifadus yn faterol'. Mae'r rhestr lawn o gwestiynau a ofynnwyd ar gael ar dudalen 80 o [holiadur 2014-15](#).

Cymwysterau

Mae cymwysterau uchaf yr ymatebwyr wedi'u grwpio yn ôl lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol: lefel 1 yw'r lefel gymwysterau isaf ac mae lefel 8 yn cyfateb i radd doethuriaeth neu gymhwyster cyfwerth. Ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol, mae'r ymatebwyr wedi'u gosod mewn 5 grŵp: mae'r rhai nad oes ganddynt ddim cymwysterau wedi'u gosod yn y categori isaf, ac mae ymatebwyr sydd â chymwysterau ar lefelau 4 i 8 wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn y categori cymwysterau uchaf. [Mae rhagor o wybodaeth am lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol](#).

Er mwyn darparu disgrifiadau mwy ystyrlon o'r cymwysterau, defnyddiwyd y disgrifiadau byr hyn yn y bwletin hwn.

Lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol	Disgrifiadau byr a ddefnyddir yn y siartiau
Lefelau 4-8 y Fframwaith	Addysg uwch (Lefel 4+)
Lefel 3 y Fframwaith	Safon Uwch a chymwysterau cyfwerth (Lefel 3)
Lefel 2 y Fframwaith	TGAU graddau A i C a chymwysterau cyfwerth (Lefel 2)
Islaw lefel 2 y Fframwaith	TGAU islaw gradd C (islaw Lefel 2)
Dim cymwysterau	Dim cymwysterau

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Cefndir

Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2012-15 gan TNS-BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar gyfweiliadau a gwblhawyd yn 2014-15 (1 Ebrill 2014 – 12 Ebrill 2015) (cafodd y gwaith maes ei ymestyn ychydig y tu hwnt i flwyddyn, er mwyn cynyddu maint y sampl).

Bob blwyddyn, dewiswyd tua 25,000 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16+ oed) ar hap yn y cartref, a chynhaliwyd cyfweiliad wyneb yn wyneb 25 munud gyda'r oedolyn hwnnw, gan ofyn am ei farn am amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio arno a'i ardal leol. Cwblhawyd cyfanswm o 14,285 o gyfweiliadau yn 2014-15. Mae'r dadansoddiadau yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar 1,500 o ymatebwyr a oedd â phlentyn 3 i 7 oed a 2,200 o ymatebwyr a oedd â phlentyn 3 i 11 oed.

Dehongli'r canlyniadau

Dim ond ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol y mae'r canrannau a nodir yn y bwletin hwn wedi'u seilio. Mae sawl rheswm pam na cheir ateb i gwestiynau, gan gynnwys pobl yn gwrthod neu'n methu ag ateb cwestiwn penodol ac achosion pan nad yw'r cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd.

Os nodwyd cysylltiad rhwng dau ffactor, nid yw hyn yn golygu bod un yn achosi'r llall. Bydd angen dadansoddiad manylach i ganfod a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall. Mae dadansoddiad atchweliad yn ddull o ganfod pa ffactorau sy'n debygol o fod yn bwysig – gweler [isod](#).

Mae gwiriadau ar waith i sicrhau mai'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar yr adeg y cyhoeddir sy'n cael eu dyfynnu.

Caiff canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol eu pwysoli i wneud iawn am y tebygolrwydd o ddethol mewn modd anghyfartal a gwneud iawn am ddiffyg ateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oedran a rhyw y set ddata derfynol yn cyfateb i boblogaeth Cymru).

Ansawdd y data

Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu ynghylch p'un a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant i Gymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig – [Sut mae mesur cynnydd cenedl? - Dangosyddion cenedlaethol](#)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn – [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

Adroddiad ansawdd

Mae [Adroddiad Ansawdd](#) cryno ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg ynghyd â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i lunio'r canlyniadau.

Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Cenedlaethol yn agored i rywffaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu.⁵ Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu. Caiff y cyfyngau hyn eu cyfrifo o amgylch amcangyfrif o arolwg ac maent yn rhoi amrediad sy'n debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95% o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95% yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder. Mae cyfyngau hyder wedi cael eu cynnwys yn y tablau o ganlyniadau'r arolwg a gyhoeddwyd ar [StatsCymru](#).

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd iddynt wneud neu na fyddant efallai yn ateb yn gywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael ei brosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir yn yr [adroddiad ansawdd](#) ar yr arolwg.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Pan fo testun y datganiad hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng dau o ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol (yn yr un flwyddyn), rydym wedi sicrhau nad yw'r cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond, fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5% (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un dau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y ceir casgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau wrth wirio a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd na g y mae wrth gynnal prawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fo gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau cadarnhaol ffug. Felly, pan wneir llawer o gymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei bod yn lleihau'r siawns hon (ond nid yw'n ei dileu).

Pan fo canlyniadau Arolwg Cenedlaethol yn cael eu cymharu â chanlyniadau o ffynonellau eraill, nid ydym wedi gwirio a yw cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd.

⁵ Trafodir cyfeiliornad samplu yn fanylach yn yr [Adroddiad Ansawdd](#) ar yr Arolwg Cenedlaethol.

Dadansoddiad atchweliad

Mae gwahanol fathau o ddadansoddiad atchweliad a ddefnyddir i ddibenion gwahanol. Gelwir y math a ddefnyddir yma yn atchweliad logistaidd deuaidd. Dyma'r dechneg atchweliad a ddefnyddir yn fwyaf cyffredin gyda data arolwg.

Fe ddefnyddiom ni atchweliad logistaidd i ynysu effeithiau penodol ffactorau unigol (er enghraifft, oed a rhyw) ar ganlyniad penodol (er enghraifft, hyder rhieni ynglŷn â helpu eu plentyn). Mae'n caniatáu inni edrych ar effaith pob ffactor yn unigol gan gadw amryw o ffactorau eraill yn gyson.

Gan ddefnyddio'r model ystadegol a gynhyrchwyd, roedd modd wedyn inni archwilio'r cysylltiad rhwng pob ffactor a hyder rhieni ynglŷn â helpu eu plentyn, drwy addasu'r gwerthoedd yn y model ystadegol ar gyfer pob ymatebydd. Weithiau caiff hyn ei alw'n effaith ymylol gyfartalog. Mae'r canlyniadau'n dangos pa nodweddion/sefyllfaoedd sydd â'r dylanwad cryfaf ar y cwestiwn gwreiddiol (er enghraifft, hyder rhieni ynglŷn â helpu eu plentyn) pan fydd pob ffactor arall yn y model yn cael ei ddal yn gyson. Gellir cael rhagor o fanylion am sut y gwnaed y dadansoddi drwy ofyn.

Adroddiad technegol

Nodir gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg yn yr [adroddiad technegol](#) ar yr arolwg.

Diwygiadau

[Mae rhagor o wybodaeth am ein polisi diwygiadau.](#)

Polisi rhyddhau

Ceir gwybodaeth am y broses o ryddhau canlyniadau newydd ar [dudalennau gwe ystadegau](#) Llywodraeth Cymru.

Argaeledd setiau data

Cyhoeddir y data sy'n sail i'r siartiau a'r tablau yn y datganiad hwn mewn taenlenni ar [StatsCymru](#). Mae fersiwn heb enwau o'r set ddata flynyddol (y mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i dileu ohoni i sicrhau cyfrinachedd), ynghyd â dogfennau ategol, wedi cael ei chadw yn [Archif Data'r DU](#). I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ni (gweler isod).

Defnydd pellach o'r canlyniadau

Caiff y canlyniadau eu defnyddio'n helaeth gan dimau polisi Llywodraeth Cymru, ond maent yn berthnasol hefyd i amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion allanol eraill.

Diweddariad nesaf

Nid yw hwn yn gyhoeddiad rheolaidd.

Manylion pellach

Mae'r ddogfen ar gael ar:

<http://llyw.cymru/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&lang=cy>

Rydym am gael eich adborth

Rydym yn croesawu adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn, a gellir ei gyflwyno drwy e-bost at: arolygon@cymru.gsi.gov.uk

Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored f3.0](#), oni nodir yn wahanol.

